

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 154 Rhif 44 Tachwedd 4, 2021 50c.

NEWID HINSAWDD: CYMUNEDAU CYMRU'N TALU PRIS Y CWMNIAU BRWNT

Mae tanau anferth, llifogydd difrifol a lefelau'r mor yn codi yn ganlyniadau amlwg newid hinsawdd. Ond un canlyniad llai amlwg yw'r modd y mae cwmnïau yn prynu ffermydd i blannu coed er mwyn creu 'credydau carbon' sy'n galluogi cwmnïau rhyngwladol i barhau i lygru'r amgylchedd – proses sy'n bygwith dyfodol cymunedau mewn rhannau o Gymru. ALUN LENNY sy'n esbonio mwy.

Newid hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i ddnoliaeth erioed, ac mae plannu coed ar raddfa anferth yn cael ei gydnabod fel ffordd flaenllaw o fynd i'r afael â hynny, gan fod coed yn llyncu ac yn storio CO₂, y 'nwy tŷ gwydr' sy'n cyfrannu'n helaeth tuag at wresogi fyd-eang. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig am weld hyd at 120,000 hectar o goed yn cael eu plannu yng Nghymru rhwng nawr a 2050. Mae hynny'n gyfystyr â 460 milltir sgwâr. (Llun: Fforest Brechfa, AL.)



Coed a'r fasnach credydau carbon

Law yn llaw â'r strategaeth goedwigo, lluniwyd Cynllun Masnachu Allyriadau (ETS). O dan y cynllun hwn, mae cap yn cael ei roi ar gwmnïau mawr sy'n cynhyrchu lefelau uchel o CO₂, gyda dirwy o £1,000 am bob tonnell o garbon sy'n cael ei orgynhyrchu. Ond mae'n bosib i'r cwmnïau hyn brynu 'credydau carbon' i wrthbwyso'r gorgynhyrchu, a thrwy hynny osgoi talu dirwyon. Ffordd hawdd a rhad (tua £22 y dunnell) yw prynu'r credydau carbon mewn ocsiwn oddi wrth gwmnïau sy'n prynu tir ac yn plannu coed ar raddfa anferth er mwyn cynhyrchu'r credydau. Mae'n fasnach lle mae elw mawr i'w wneud yn enw diogelu'r amgylchedd. Yn ogystal â'r masnachu mewn credydau carbon, mae cwmnïau o'r tu allan i Gymru eisioes wedi hawlio £1.3 miliwn o bunnau mewn grantiau o dan gynllun Creu Coetir Glastir Llywodraeth Cymru i blannu coed yn ein gwlad. Mae arian cyhoeddus o bocedi trethdalwyr Cymru yn llifo ar draws Glawdd Offa i goffrau'r cwmnïau rhyngwladol sy'n prynu ffermydd teuluol i'w troi'n goedwigoedd.

Coed lle bu cymdogaeth

Mae Foresight, cwmni buddsoddiadau sydd a'i bencadlys yn y Shard yn Llundain, wedi prynu ffermydd Frongoch, Brynglas ac Esgair Hir yn ardal Cwrt y Cadno, a fferm Banc mewn ardal gyfagos er mwyn plannu coed. Yn ôl John Thomas, a fu'n

byw yn Frongoch ar hyd ei oes tan dair blynedd yn ôl, mae daear Cymru a ffordd o fyw yn cael eu haberthu er mwyn i gwmnïau mawr barhau i arllwys carbon i'r amgylchedd. Ar draws y ffin ym Mhowys, cafodd tair fferm yn ardal Llanwrtyd eu prynu at yr un pwrpas. Dywedodd Susan Price, cyn-yysgrifennydd capel yr Annibynwyr yn Llanwrtyd, bod y cyfan yn dwyn i gof eiriau Gwenallt yn ei gerdd 'Rhydcymerau' am 'goed lle y bu cymdogaeth, fforest lle bu ffermydd,' wrth i fywoliaeth, yr iaith a chymuned ddiflannu.

Mae'n bwysig bod y rhai sy'n llunio polisiâu yn cyfathrebu â chymunedau lleol a gwyddonwyr er mwyn sicrhau'r ffordd orau ymlaen – Dr Bonnie Waring, Coleg Imperial Llundain.

Amheuan ymgyrchwyr a gwyddonydd

Tra'n derbyn bod coed yn llyncu a storio CO₂, mae Greenpeace, y mudiad rhyngwladol a fu'n ymgyrchu dros ddyfodol yr amgylchedd ers 50 mlynedd, yn amau faint o effaith gaiff y strategaeth goedwigo. Y ffordd orau i ymladd newid hinsawdd yw gadael y carbon – glo, nwy ac olew – yn y ddaear, meddent, gan ladd ar ragrith cwmnïau mawr sy'n prynu mewn i'r cynllun plannu coed ac yn parhau i achosi llygredd ar raddfa anferth. Mae Greenpeace yn datgan na ellid plannu ein ffordd allan o'r argyfwng hinsawdd.

Dyna farn adroddiad gan Dr Bonnie Waring o Goleg Imperial Llundain hefyd. Bydd hi'n cymryd degawdau i goed newydd fod yn effeithiol fel llyncwyr CO₂, meddai. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n llunio polisiâu yn cyfathrebu â chymunedau lleol a gwyddonwyr er mwyn sicrhau'r ffordd orau ymlaen, meddai Dr Waring.

Rheolaeth leol

Mae'n amlwg nad yw hyn wedi digwydd yng Nghymru. Gan fod y strategaeth plannu coed wedi cychwyn, mae rhai cynghorau ac aelodau seneddol yn gweld yr angen i fynd i'r afael â'r sefyllfa trwy geisio sicrhau rheolaeth leol i leddfu'r difrod i gymunedau. Os llwyddir i wneud hynny, a phlannu'r coed yn y mannau iawn ac ar raddfa resymol, fe allai rhywbeth sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried yn fygythiad droi'n elw i ffermwyr a chymunedau gwledig. Ond yn wyneb y grymoedd masnachol, bydd hynny'n dipyn o her.

HINSAWDD AELWYD 3 – CYNAEFAU GWAHANOL

*Dyma drydedd rhan erthygl Morlais
Dyfnallt Owen sy'n trafod Llyfr Ruth*

'Dy Dduw di, fy Nuw innau.' –
CREFYDD.

Deilliai Ruth o gefndir a diwylliant tra gwahanol i Naomi, ond gwelodd yn ei mam yng nghyfraith, fywyd gwahanol, ei hymateb hi i eraill, ei hymgom, ei hymrwymiad i'r pethau gorau. Gwelodd grefydd oedd yn weithredol, crefydd bob dydd.

Comiwnydd a ddywedodd rywbryd: 'You Christians have the answer, if only you applied it.' A ydyw crefydd yn broblem? Roedd y berthynas agos oedd gan Naomi a'i Duw yn amlygu ei hun yng nghynhesrwydd eu perthynas â phobl. Term y Beibl ar hyn yw gweinidogaeth y Cymod. Mae pobl heddiw yn rhoi pwyslais ar eu hawliau. Mae plant hyd yn oed, yn gwbl ymwybodol o'u hawliau. Cofiwn, fodd bynnag, gyda'r hawliau mae yna gyfrifoldebau. A sôn am ddyletswyddau aelwyd, yr hindda holl bresennol yna. Bu mamau yn gwbl allweddol ar aelwyd:

Yr Arglwydd yn ei ddoethineb
a roes i famau'r ddaear
synnwyr a deall da,
a hwy a roddant i gymdeithas
ei chalon.

'I'r Fam', W. Rhys Nicholas

Cyfeiriodd Philip Yancey at gynhadledd oedd yn trafod crefyddau cymharol y byd gan ofyn beth oedd yn unigryw i'r Grefydd Gristnogol: 'The notion of God's love coming to us free of charge, no

strings attached, seems to go against every instinct of humanity.' Cyfeiriwyd at y crefyddau eraill a dywedwyd: 'each of these offers a way to earn approval. Only Christianity dares to make God's love unconditional.' (*What's So Amazing About Grace*, t. 45 Zondervan Michigan 1997).

'Le y byddi farw, byddaf finnau farw ac yno y'm cleddir.'

Nid yn unig claddedigaeth ond cadwedigaeth. Rhyfedd cyfeirio at hyn fel cynhaeaf.

Collasom fel brodyr ein mam yn Awst a'n tad ym mis Hydref yr un flwyddyn, ac o'r fath ergyd a'r fath wacter, ond mae eu presenoldeb gennym o hyd. Dyma'r gadwedigaeth i ni. Edrychwn o bryd i'w gilydd, hyd heddiw, gyda thristwch ar hen luniau ohonom fel teulu:

Mae gennyf ddarlun
Ar fy nghof
Yn ddarlun gwreiddiol,
Y wên faddeugar ...
... Yn heulwen neu'n law
A'r llygaid fu'n barnu a charu
Ac yn fy meddwl, y llygaid
Fydd yn parhau i edrych
A fy nilyn i bob cyfeiriad

'Darlun o fy mam', Parchg Meirion
Evans, *Cadw Drws*.

Cofiwn am y plannu gofalus a fu er ein cyfer, a ninnau'n cyfranogi'n helaeth o hyd o'r hyn a fu. Chwalwyd aelwydydd lawer gan y pandemig, y firws dieflig a fu'n dwyn anwyliaid ymhell cyn amser. Amddifadwyd bröydd a chymdogaethau o bobl dda. Er i ni eu colli, byddant eto yn llefaru:

Mynd y mae'r hen gynefinwyr o un i un
Ac ar ryw olwg y mae tamaid o'r hen fro'n
Diflannu gyda hwy bob tro.

T. H. Parry-Williams

Diolchwn am gynaeafau mawr yn ein bywyd a'r hinsawdd, cudd efallai, ond eithriadol o gyfoethog a wnaeth y cyfan yn bosibl. Yn olaf, ceir y prawf terfynol yn yr ysgrythurau ac yng ngeiriau Iesu ei hunan: 'Cred yn yr Arglwydd Iesu a chadwedid fyddi.' Dyma addewid Iesu: 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd farw byth.' Ioan 11.25–26).

Cymdeithas doredig a bywydau briw,
Cartref a theulu yn ddiserch a di-liw,
Chwalu yn deilchion o'n cylch y mae'r byd
A chalonnau'n rhwygo – yn rhwygo o hyd.
Bywyd toredig ni ellir ei drwsio ffrind
Dim ond cyfeirio'n llwybr i fynd
'Nôl at y Crëwr – 'nôl at y Crëwr.

cyfieithiad gan yr Athro J. R. Jones o
Broken Up People and Broken Up Homes,
John Daniels

Diweddglô

Ar dudalen flaen *Y Tyst* 16 Medi 2021 gwelwyd y pennawd YR ARGYFWNG NEWID HINSAWDD, ynghyd ag apêl arweinwyr Cristnogol 'ar i lywodraethau'r byd fynd i'r afael o ddifri â'r argyfwng'. Er pwysiced hyn, a oes gennym yr un pryder am argyfwng y newid hinsawdd a fu ar aelwydydd Cymru, heb ymhelaethu mewn unrhyw fodd ar y problemau dyrys sy'n bodoli, sy'n hysbys i bawb ohonom, ac yn wir, ar ein ffordd o fyw, tybed? A fydd hyn eto ar draul y cenedlaethau a ddaw ?

Morlais Dyfnallt Owen

Llongyfarchiadau mawr i Elena Ruddy ar ennill cystadleuaeth farddoniaeth pobl ifanc Barddas yn ddiweddar. Mae Elena'n ddigysibl yn Ysgol Gyfun Gŵyr ac yn aelod yn Bethel, Sgeti. Dyma'i cherdd i chi ei mwynhau.

Ha' Bach Mihangel

Y flwyddyn, yn ei gŵn gorau
O glytwaith llachar.

Y defnyddiau deliaf –
Sgert lawn, hynod,
Sidan y dail amryliw,
Yn tasgu, yn troelli i'r llawr fel gwreichion,
Pwythau petalau'r hydref,
Melfed wiwerod, symudliw plu'r ddrudwy.
Siffon ysgafnach na tharth y bore,
Lês cyn feined â gwe pry cop,
A rhuddemau'r aeron
Yn ddisglair ar y ffrog ryfeddodau.

Botymau'r cnau a brodwaith y blodau
Yn gampwaith mireinder y misoedd.

A hithau, yn anterth ei phrydferthwch ysblennydd,
Colur cynnes haul olaf Medi ar ei hwyneb
Guddia pob crych a brycheuyn.

Ond daw'r machlud.
Diflanna'r cosmetig –
O dan ei llygaid blinedig mae cysgodion;
Ei chroen yn amherffeithrwydd rhychiog,
Ymylon ei ffrog wedi gwisgo a datod,
A brad y blew bach gwyn ym mieri ei gwallt.

Ysblander ei gwisg sy'n pylu –
Ei phlygiadau'n crino,
A pherlau dagrau'r gwllith sy'n disgyn ymaith.

A chydag ochenaid hiraethus y gwyntoedd gaeafol,
Mae'n diosg ei gŵn gorau,
I'w chadw yng nghist hen dymhorau.

Elena Ruddy

Mudiad Tlodi yn parhau i gynnig gobaith i filoedd. Interniaeth Megan Roberts gyda CAP



Mae'r mudiad Christians Against Poverty (CAP) yn 25 oed eleni ac yn parhau i ddarparu cymorth am ddim i rai sydd mewn dyled a grwpiau cymunedol ar draws y Deyrnas Unedig. Gydag eglwysi lleol, fe gynigir gwasanaethau rhad sy'n rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i bobl, gan ddangos bod yna obaith i'w gael bob amser. Megan Roberts sy'n rhannu ei phrofiad yma o weithio fel intern gyda CAP yn Bradford a bod yn rhan o ddatlu llwyddiant y mudiad.

Mae hi'n bawn llwyd yma yn Bradford, gyda'r glaw yn taro'r ffenestri wrth imi ysgrifennu hyn atoch chi i gyd yn ôl yng Nghymru. O fy nghwmpas i mae pobl yn brysur yn galw i ddiolch a gweddïo dros gefnogwyr, yn paratoi ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau, ac yn prosesu rhoddion i'r elusen.

Rydw i ar ddechrau fy mlwyddyn yn gweithio i CAP fel 'intern' yn y tîm Digwyddiadau i Gefnogwyr (Supporter Events). Mae yna 17 o interns eleni, i gyd yn gweithio o fewn gwahanol dimau ar draws yr elusen, ac mae wedi bod yn amser gwych gallu dod i nabad pawb. 'Dan ni fel grŵp wedi bod i wylïo gêm bêl-droed (Bradford City 1-1 Barrow, os oes gennych ddi-ddordeb), sglefrio iâ a bowlïo deg, ac rydan ni'n ymuno â'n gilydd o fewn y diwrnod gwaith unwaith yr wythnos ar gyfer ein sesiynau Crist-ganolog, lle mae un intern yr wythnos yn rhannu ar y thema 'Pwy ydy Duw?'

Cafodd CAP ei ffurfio 25 mlynedd yn ôl gan John Kirkby. Os ydych chi'n chwilio am lyfr i'w ddarllen ar y funud, mi faswn i'n argymhell yn fawr lyfr John, *Nevertheless*, sydd yn disgrifio blynyddoedd cyntaf CAP! Mae hi'n stori anhygoel am ffyddlondeb Duw, ac ymddiredaeth gref John a'r tîm y byddai pethau'n gweithio allan ar eu cyfer.

Mae wythnos o waith yn CAP wastad yn dechrau drwy ddod o flaen Duw mewn gweddi ac addoli, a thrwy gydol gweddill yr wythnos mae yna ddigonedd o gyfarfodydd gweddi wedi'u amserlennu (ar eich cyfer fel unigolyn, yn rhan o dîm bach, neu fel adran gyfan). Gan fod CAP eleni'n dathlu 25 mlynedd ers ei sefydlu,



Megan a'r interniaid eraill eleni yn nathliad CAP yn 25 oed

yn ôl yn 1996, ychydig wythnosau yn ôl cawsom ni'r cyfle i fod yn rhan o ddigwyddiad o'r enw The Gathering yn Efrog, lle'r ymunodd cannoedd o staff CAP gyda'n gilydd i ddatlu. Roedd hwn yn amser gwych i ddod i ddeall gweledigaeth CAP yn well. Fel rhan o'r gynhadledd, cawsom ni

gyngerdd rhyfeddol gan y London Community Gospel Choir, oedd yn wirioneddol anhygoel!

Fy nhim i sy'n gyfrifol am drefnu unrhyw ddigwyddiadau o fewn yr elusen. Ar y funud ein prif ddigwyddiad ydy The Great Big Fish & Tricks Night. Un o'r pethau sy'n fwyaf o hwyl am fy rôl i ydy fy mod i'n cael y cyfle i fynychu rhai o'r digwyddiadau rydan ni'n eu paratoi. Mi wnes i fwynhau mynychu'r noswaith Fish & Tricks yn Llundain ddechrau mis Hydref yn arw. Yno, ro'n i'n gyfrifol am edrych ar ôl y comedian Milton Jones (ia, y dyn gyda'r gwallt gwallgof ar *Mock the Week*) oedd yn perfformio ar y noson, a dwi'n siŵr, dros y flwyddyn nesaf yma, y bydda i'n cario ymlaen i fwynhau nifer o brofiadau newydd!



Am dro ar Ilkley Moor

Pob bendith o Bradford bell!

Megan Roberts

(Yn wreiddiol o Dreuddyn yn Sir Fflint, fe raddiodd Megan o Brifysgol Durham yn gynharach eleni ac mae bellach yn treulio cyfnod yn gweithio fel intern gyda'r mudiad CAP. Mae rhagor o fanylion am CAP a chopi rhad o Nevertheless, John Kirkby, i'w gael ar eu gwefan: www.capuk.org)



Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Wrth arwain at dymor yr Adfent, fe fyddwn yn cyflwyno cyfres o fyfyrddodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).

Deall Heddwch: Presenoldeb Duw

Darlenn: Ioan 14: 15–20

Gydag atgyfodiad ysbrydolrwydd Celtaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu diddordeb o'r newydd yn y gwaith celf cywraïn, cydgysylltiedig, sy'n ceisio mynegi cydblethiad y Duw sy'n Dad, yn Fab ac yn Ysbryd Glân. Mae pob dyluniad yn plethu i mewn ac allan, heb ddechrau na diwedd.

Ni allwn esgus deall yn llawn yr hyn y mae'n ei olygu i ddweud bod Duw yn dri-yn-un, ond mae'r ysgrythurau'n datgelu'n glir bod y Duw sy'n gariad nid yn unig yn bodoli yn y gymuned ond yn gymunedol. Fel Cristnogion, ni allwn rag-weld Duw heblaw yn y cyfodoli diderfyn, diduedd, cyd-ddibynnol yr ydym yn ei alw'n Drindod. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'perichoresis', gair Groegaidd sy'n dwyn i gof fudiad tebyg i ddawns o wehyddu i mewn ac allan, endid sengl eto sy'n cynnwys tri endid unigol. Ac yn y mudiad hwn fe welwn gymuned – cymuned o roi a derbyn, cymuned o gariad; a dyna pam mae Ioan yn dweud mai 'cariad yw Duw' (1 Ioan 4: 8).

Ond fel pe na bai hynny'n ddigon, fe'n gwahoddir hefyd i gymryd rhan yn y ddawns ddwyfol hon. Gallwn ei hesbonio'n helaethach fel hyn:

bydd Iesu'n gofyn i'r Tad ac yn anfon yr Ysbryd Glân (adn. 16).

Bydd yr Ysbryd Glân gyda chi am byth (adn. 16) a bydd ynoch chi (adn. 17), ac rydych chi yn Iesu (adn. 20) ac mae Iesu yn y Tad (adn. 20).

Yn wyneb ofn yr apostolion, mae Iesu'n addo ei heddwch iddyn nhw ac mae'r heddwch hwn yn cael ei fynegi a'i wireddu gan breswyliaid yr Ysbryd Glân ynom. Trwy'r Ysbryd Glân rydyn ni yng Nghrist ac mae Crist yn y Tad (gweler Colosiaid 3: 3).

Ar adegau o drafferth neu bryder, mae'n dda wynebu'r sefyllfa honno gyda ffrind neu rywun annwyl. Nid oes amheuaeth nad oes rhywfaint o wir yn y dywediad bod 'problem a rennir yn broblem wedi'i haneru' neu 'mae ffrind mewn angen (fy un i) yn ffrind yn wir'. Ond nid yw cwmniaeth ein gilydd yr un peth â phresenoldeb Duw. Nid dim ond cwmni ffrindiau yw'r heddwch yr ydym yn darllen amdano yn y Beibl, yr heddwch y mae Iesu'n siarad

amdano. Pe bai hi felly, yna byddai Iesu wedi dweud wrth ei ddisgyblion ar noson y Pasg, 'Pam ydych chi i gyd mor ddigalon? Llawenhewch – mae gennych chi'ch gilydd!' Ofn y disgyblion yw bod Iesu'n eu gadael. Yr heddwch y mae'n ei gynnig yw ei fod ef yn aros. Yn nes ymlaen, mae'n gwneud hyn hyd yn oed yn fwy eglur:

'Ond am fy mod wedi dweud hyn, dych chi'n drist i gyd. Ond credwch chi fi: Mae o fantais i chi mod i'n mynd i ffwrdd. Os gwna i ddim mynd, fydd yr un sy'n sefyll gyda chi ddim yn dod: ond pan af fi, bydda i'n ei anfon atoch chi.' Ioan 16: 6–7 (Beibl.net)


Ac ychydig adnodau yn ddiweddarach, yn Ioan 16:33, dywed eto, 'Dw i wedi dweud y pethau hyn wrthoch chi, er mwyn i chi gael profi'r heddwch go iawn sydd yn ofi.'

Efallai yma ein bod yn dechrau deall beth mae heddwch yn ei olygu i'r rhai sydd â ffydd. Mae Crist yn cynnig yr heddwch sy'n ein dal yn ddiogel yng nghanol yr argyfwng, yn rhoi nerth inni sefyll tra bo'r storm yn gynddeiriog, ac yn ein cynnal drwyddi nes, efallai, fod y broblem yn mynd heibio neu'n cael ei datrys, neu yn y pen draw nes inni ddod o hyd i'n iachâd ynddo.

Yr heddwch y mae'n ei roi inni yw ei bresenoldeb go iawn gyda ni. Daw'r heddwch hwn â newid yn amgylchiadau'r un sy'n ymddiried ynddo, a dyna pam mae'n mynd ymlaen i ddweud, 'Peidiwch cynhyrfu, a pheidiwch bod yn llwfr' (Ioan 14:27c; Beibl.net). Dyma pam mae'r apostol Paul yn cyfeirio'n ddiweddarach at yr heddwch mae Iesu'n ei gynnig fel yr hyn sydd 'y tu hwnt i bob dychymyg' (Philipiad 4: 7). 'Mae'r Arglwydd yn dod yn fuan', meddai Paul yn Philipiad 4: 5, ond wrth gwrs ni all y rhai nad ydyn nhw'n credu weld hyn; ni allant ei brofi, felly ni allant ei ddeall.

Dyma, felly, yw'r gyfrinach y byddwn yn ei harchwilio yn y gyfres hon: sut y gellir profi presenoldeb Duw yn ein bywydau a sut mae'n cynnig heddwch inni sydd y tu hwnt i fesur. Dyma anrheg werthfawr iawn. Dyma pam mae genedigaeth Iesu o'r pwys mwyaf i ni, ac i'r byd.

Cyn i ni symud ymlaen, fodd bynnag, gadewch imi ychwanegu gair am yr hyn rydw i wedi'i alw'n atebion therapiwtig sy'n dod â heddwch. Weithiau bydd y byd a'r bobl ryfeddol sydd ynddo yn gallu



lleddfu neu hyd yn oed gael gwared ar ein problem. Yn y llyfr hwn rwyf am ddal ynghyd ddaioni'r byd sy'rthiedig hwn, a all gyfrannu at ein heddwch a'n lles, a'r anghenraid llwyr am berthynas â Duw, yr hwn y mae ei heddwch y tu hwnt i'n dychymyg yn ei wahaniaeth i'r hyn y gall y byd ei gynnig inni.

Ond os yw'r heddwch sy'n dod o'n hymdrech ddynol – yr iachâd, yr atal, y gwellhad a'r gwmniaeth – o werth o gwbl, yna nid yn unig y mae'r pethau hyn i'w dathlu ond i'w hannog hefyd. Yr ydym yn byw ein bywydau fel pobl mewn cyrff o gnawd, a'r hyn sy'n ein hamddifadu o heddwch yw prinder bwyd, dŵr, dillad a chysgod, iechyd ac addysg, cyfiawnder a diogelwch. Nid oes gany Beibl lei 'heddwch' sy'n anwybyddu'r pethau hyn, sydd yn dweud i bob pwrpas 'efallai bod bywyd yn ofnadwy ond mae popeth yn iawn achos mae gennym ni Iesu'. Bydd golwg sydyn ar Mathew 25:31–46 yn dweud wrthym bod gofalgan Iesu bod angenrheidiau bywyd ar gael i bawb, yn enwedig 'y lleiaf o'r rhai hyn'. Ydy, mae presenoldeb Iesu wedi cynnal myrdd o eneidiau yn yr amgylchiadau mwyaf enbyd, ond dydy hynny ddim yn esgus dros beidio gwneud dim byd yn wyneb anghyfiawnder. Os mai nod teyrnas Dduw yw adfer heddwch Duw, yna mae'n rhaid i genhadaeth yr eglwys anelu i adfer yr heddwch hwnnw crystal fyth ag y gallwn.

Mewn gwirionedd, dydy'r gair 'heddwch' ddim i'w weld yn air digon cryf o bell ffordd i ddisgrifio hyn i gyd. Felly, rwy'n awgrymu ein bod yn defnyddio gair gwahanol ond mae popeth yn iawn hwnnw yw 'shalom', y gair am heddwch yn Hebraeg yr Hen Destament. Mae'n air rhyfeddol o gyfoethog. Amgyffred shalom yw ein tasg nesaf.


Ar drothwy COP26, 72 sefydliad yn cyhoeddi'r dadfuddsoddiad mwyaf erioed gan fudiadau ffydd

Mudiadau a grwpiau ffydd yn y DU yn cynrychioli 2,000 o eglwysi lleol yn cyhoeddi dadfuddsoddiad cyn Cynhadledd Hinsawdd y Cenhedloedd Unedig

Dydd Mawrth, 26 Hydref 2021, bum niwrnod cyn cynhadledd hinsawdd y Cenhedloedd Unedig, COP26, yn Glasgow, a phedwar diwrnod cyn Uwchgynhadledd yr G20 yn Rhufain, cyhoeddodd 72 o sefydliadau ffydd, gan gynnwys 37 o'r Deyrnas Unedig, eu bod yn dadfuddsoddi o danwydd ffosil. Dyma'r cyhoeddiad mwyaf erioed gan sefydliadau crefyddol ar y cyd ynglŷn â dadfuddsoddi.

Gwnaed y cyhoeddiad dadfuddsoddi byd-eang gan sefydliadau ffydd sydd â dros \$4.2 biliwn o asedau rhyngddynt ac yn cael eu rheoli yn Awstralia, Iwerddon, yr Eidal, Kenya, Nepal, Periw, yr Wcraïn, y DU, yr Unol Daleithiau a Zambia.

Ymhlith y sefydliadau sy'n cymryd rhan mae Eglwys Bresbyteriaid Cymru; Cynhadledd Esgobion Catholig yr Alban; Bwrdd Cyllid Canolog yr Eglwys Fethodistaidd; Eglwys Bresbyteriaid Iwerddon; 15 esgobaeth Gatholig yn y DU ac Iwerddon, gan gynnwys Archesgobaethau Glasgow, St Andrews a Chaeredin, Birmingham a Southwark; esgobaethau Truro a Sodor & Man, Eglwys Loegr; a'r



mudiad crefyddol Bwdhaidd Soka Gakkai International – UK. Mae'r eglwysi a'r esgobaethau yn y DU sy'n rhan o'r cyhoeddiad hwn yn cynrychioli bron i 2,000 o eglwysi lleol.

Mae llawer o eglwysi'r DU wedi dadfuddsoddi'n llawn oddi wrth gwmnïau tanwydd ffosil eleni, gan gynnwys [Eglwys yr Alban](#), yr [Eglwys yng Nghymru](#) ac [Undeb y Bedyddwyr](#).

Mae'r mudiad dadfuddsoddi o danwydd ffosil wedi tyfu'n anhygoel yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl adroddiad newydd a gyhoeddwyd cyn y gynhadledd COP26, mae dros 1,485 o sefydliadau ag asedau o dros \$39 triliwn rhyngddynt wedi gwneud rhyw fath o ymrwymiad i ddadfuddsoddi – cynnydd aruthrol o'r man cychwyn o \$50 biliwn yn 2014. Mae sefydliadau ffydd wedi bod ar flaen y gad yn y mudiad dadfuddsoddi byd-eang, yn cynrychioli dros 35% o gyfanswm yr ymrwymadau. Cyhoeddodd Glasgow, Rio de Janeiro, Paris, Seattle ac Auckland hefyd eu hymrwymadau dadfuddsoddi yr un pryd, gan ymuno â [Fforwm Dadfuddsoddi / Buddsoddi C40](#) yn cefnogi hyrwyddo dadfuddsoddi eu cronfeydd dinesig a phasiwn.

Nododd yr Asiantaeth Ynni Rhyngwladol (IEA) [Map-Ffordd Net Sero erbyn 2050](#) yn ddiweddar na ellir cael unrhyw ddatblygiadau glo, olew a nwy newydd os yw'r byd am gyfyngu cynhesu byd-eang i lai na 1.5 °C ac atal effeithiau trychinebus ar yr hinsawdd. Wrth i arweinwyr y byd baratoi i gwrdd yn COP26, mae Llywodraeth y DU yn dod o dan bwysau cynyddol dros gynlluniau ar gyfer maes olew Cambo oddi ar arfordir yr Alban, gyda chefnogaeth y cwmni olew anferthol Shell, a fyddai'n rhyddhau allyriadau'n cyfateb i'r llygredd carbon blynyddol o 18 gorsaf bŵer wedi eu tanio gan lo.

Y mis diwethaf, galwodd dros 20 o esgobion Anglicanaidd De Affrica, gan gynnwys Archesgob Cape Town, tri esgob Mozambique ac Esgob Namibia am [atal chwilio am nwy ac olew yn Affrica ar unwaith](#). Dywedon nhw fod 'oes newydd o wladychu economaidd gan gwmnïau tanwydd ffosil ar y gweill' a bod 'cynefinoedd naturiol Affrica yn cael eu dinistrio ar raddfa frawychus trwy echdynnu olew a nwy'.

Dywedodd James Buchanan, Rheolwr Ymgyrch 'Bright Now' y mudiad amgylcheddol Cristnogol Operation Noah: 'Wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i gynnal COP26, rydym yn falch iawn bod 37 o sefydliadau ffydd y DU wedi penderfynu dadfuddsoddi mewn cwmnïau tanwydd ffosil ac ymuno â'r cyhoeddiad dadfuddsoddi byd-eang hwn, y mwyaf o'i fath erioed. Rydym yn galw ar lywodraethau'r DU ac yn fyd-eang i ddod â chymorthdaliadau tanwydd ffosil i ben ac atal chwilio am olew a nwy newydd ar unwaith, gan gynnwys maes olew Cambo.'

Mae rhestr lawn o'r 72 sefydliad sy'n dadfuddsoddi o danwydd ffosil a dyfyniadau gan arweinwyr i'w gweld [yma](#).

Ceir yr erthygl yn llawn ar wefan Operation Noah ynghyd â datganiadau gan arweinyddion ffydd: [Ar drothwy COP26, 72 sefydliad](#)

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 7 Tachwedd, am 7.30yb

Bydd Nia'n cwrdd â rhai o'r gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi bywyd newydd i hen gapel yn Llanwrtyd.

BBC radio cymru

Sul, 7 Tachwedd – Caniadaeth y Cysegr, 7:30yb a 4:30yp

Elen Ifan yn cyflwyno detholiad o emynau o gymanfaoedd Eifionydd a Phen Llŷn dros y blynyddoedd

Sul, 7 Tachwedd – Oedfa Radio Cymru, 12:00yp

Gwasanaeth dan arweiniad Sandra Storch, Pontyberem

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Colofn Cerdd a Mawl

'Christo Redemptor'

Bydd rhai ohonoch yn gwybod fy mod yn chwarae harmonica mewn band blws ac yn ddigon parod i gydnabod nad wyf fawr o gerddor! Wedi dweud hynny mae'r dywediad yn ddigon gwir – bod pawb yn medru chwythu organ geg ond dim ond rhai ohonom sy'n gallu canu'r offeryn!

Y dydd o'r blaen bu i mi ymuno gyda chwaraewyr organ geg o bedwar ban byd am 'wers meistr' ar un o glasuron canu poblogaidd yr ugeinfed ganrif.

Mae Charlie Musselwhite o Kosciusko, Mississippi yn un o gewri'r organ geg ac yn adnabyddus iawn am ei berfformiad o 'Christo Redemptor'. Hon oedd y diwn dan sylw ar y cwrs a chred llawer mai'r trympedwr jazz Donald Byrd, o Detroit, Michigan, yw'r cyfansoddwr.

Ymddangosodd am y tro cyntaf fel trac ar ei albwm *A New Perspective* ym 1964, albwm sy'n drawiadol ei sain, yn gyfuniad llesmeiriol o synau sy'n cynnwys côr bychan dan arweiniad y cyfansoddwr Coleridge-Taylor

Perkinson.

Wrth recordio'r synau soniodd Byrd am ei awydd i gyflwyno 'spiritual-like pieces' oedd yn ymdebygu i 'modern hymnal'. Yn ôl un adolygydd roedd wedi creu 'a new musical space in the process: a place where Saturday night at the jazz club and Sunday morning in church have been rolled into one.' O wrando ar yr albwm cyfan mae'r sylw hwnnw'n cyfleu'r union deimlad y casgliad o draciau!

Cerflun Crist yn Rio

Fodd bynnag, y pianydd jazz o Atlanta, Georgia Duke Pearson, oedd yn gyfaill agos i Donald Byrd, yw cyfansoddwr y darn. Cafodd ei ysbrydoli wrth hedfan dros Rio de Janeiro ac yntau'n eistedd drws nesaf i'r gantores Nancy Wilson a hwythau ar daith tri mis o gwmpas De America.

Roedd y ddinas yn llawn lliw a chyffro islaw ond roedd golwg Duke Pearson ar y cerflun o Grist y Gwaredwr ar fynydd Corcovado. Yn ôl y sôn roedd wedi cyfansoddi'r dôn cyn i'r awyren gyffwrdd y llwybr glanio.

Yn ôl y cyfansoddwr, ar nodiadau clawr albwm Donald Byrd, 'that sight led



me to write this composition right away. I'd never felt that close to religion before.' Duke Pearson drefnodd pedair o'r pum trac ar yr albwm *A New Perspective* i Donald Byrd a bu i'r cyfansoddwr ei recordio ei hun ym 1969. Mae'n werth i chwi fynd ar YouTube neu Spotify i wrando ar y gwahanol fersiynau.

Dwi wedi gwrandao ar fersiwn 'Memphis Charlie' Musselwhite ganwaith ac er iddo ddweud unwaith y byddai wrth ei fodd yn peidio ei chanu eto mae'r torfeydd bob amser yn galw am ei chlywed yn ei gyngherddau. Mae'r cyfuniad o jazz, blws a gospel yn hudolus ond yn heriol i'r chwaraewr ond wrth ei chwarae mae'n anodd peidio myfyrio ar Grist fel y Gwaredwr.


Mi ganodd Dyfed am 'drefn i'm gwaredu' sy'n cynnig 'gobaith i minnau gael byw' a hynny 'yng nghariad anfeidrol yr Iesu'. Wrth deimlo'r gwres mae'r emynydd yn dathlu addewid y breichiau agored:

I'w fynwes yn ôl y dihangaf,
Ni chollir pwy bynnag a gred,
Mae'n disgwyl yn dyner am danaf
A'i freichiau tragwyddol ar led.

Roedd y 'gwres feistr' yn gwthio i diroedd cerddorol newydd, heriol ond yn fy nhynnu hefyd i fynwes yr Arglwydd Iesu.

Dilwyn Roberts

ACHUB TŶ MAWR WYBRNANT



Gŵyr pob un o ddarllenwyr ein papurau enwadol am bwysigrwydd y tŷ unigryw hwn yn hanes Cymru, ac yn arbennig yn hanes Cristionogaeth ein gwlad. Yma, ym 1545, y ganwyd yr Esgob William Morgan a gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg i'w gyhoeddi ym 1588 a'i ailgyhoeddi dan olygyddiaeth Dr John Davies, Mallwyd ym 1620.

Ond mae'n argyfwng yn hanes Tŷ Mawr Wybrnant, yr hen dŷ annwyl hwn

sydd, i filoedd o Gymry boed Gristionogion neu beidio, yr eiddo pwysicaf a fedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ein gwlad. Pan oresgynnwyd Cymru gan wenwyn y Covid-19 yng ngwanwyn 2020, dioddefodd Tŷ Mawr Wybrnant yntau yr effeithiau fel pawb arall. Fe'i caewyd, fe'i gwagiwyd, ac fe'i gadawyd yn ddiymgeledd a di-fudd. Ysyaeth, mae'n parhau i fod felly.

Cri o'r galon

Y mis hwn, yn *Y Faner Newydd*, ymddangosodd cri o'r galon gan un o drigolion blaenllaw ardal Penmachno gerllaw'r Wybrnant, yr hanesydd Eryl Owain, yn ymbil am i rywun neu rywrai yn rhywle godi dani i gael yr Ymddiriedolaeth gyndyn i symud tuag at ailagor y lle ac arddangos y trysorau arferai fod yno. Cefais innau ei ganiatâd caredig i ddyfynnu o'i erthygl daer sy'n egluro'r sefyllfa drist bresennol yn gyflawn a thaclus:

parhad ar y dudalen gefn

Barn Annibynnol

COP26 – Jargon



Profiad annymunol iawn yw bod yn bresennol mewn digwyddiad cyhoeddus a'r eirfa sydd yn cyrraedd ein clyw yn llawn termau a

therminoleg ddiarth i ni. Gall fod angerdd yn y traddodi, a rhai o'r gynulleidfa'n ysgwyd pen a mwmian mewn cefnogaeth, eto, mae'n hawdd i ambell un ohonom golli rhediad y cyflwyniad oherwydd dieithrwrch ambell derm.

Rwy wedi cael fy hun yn ceisio dadansoddi ambell derm cyn hyn, er mwyn ceisio ei ddeall, a chyn i mi orffen meddwl, mae'r cyflwyniad wedi mynd yn ei flaen, a minnau sawl brawddeg ar ei hôl hi!

Termau yw'r rhain sydd yn aml yn gyfarwydd i nifer ond yn anghyfarwydd i eraill ac fe'u gelwir yn jargon, sef terminoleg arbenigol sy'n gysylltiedig â maes neu faes gweithgaredd neu alwedigaeth benodol.

Defnyddir jargon mewn cyd-destun arbennig wrth gyfathrebu ac efallai na fydd yn cael ei deall yn iawn y tu allan i'r cyd-destun hwnnw.

Deall y jargon

Gwell i ni ddeall jargon COP26 er mwyn cael gwerthfawrogi'r trafodaethau yn Glasgow yr wythnos hon felly!

Co ni off. COP26? *Conférence of the Parties*. Sefydlwyd gan y Cenhedloedd Unedig, COP1 yn 1995, a hwn fydd rhif 26.

Cytundeb Paris? Cyfarfod o lywodraethau'r byd a drefnwyd yn Ffrainc ddiwedd 2015. Yr enw ar hyn oedd COP21. Y canlyniad oedd dogfen 32 tudalen a gyhoeddwyd ar 12 Rhagfyr 2015. Mae Cytundeb Paris, fel mae'n cael ei adnabod, yn ymrwymo 195 o wledydd i leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr fel na fydd tymheredd yr atmosffer ar gyfartaledd yn y dyfodol yn mynd yn fwy na 2°C uwchben y lefelau oedd cyn y cyfnod diwydiannol.

Llofnododd arweinwyr gwleidyddol y byd y cytundeb hwn ym mis Ebrill 2016.

IPCC? Yr *Intergovernmental Panel on Climate Change* sy'n edrych ar yr ymchwil diweddarara ar newid hinsawdd.

1.5°C? Yr angen am gadw tymheredd y byd o dan 1.5°C er mwyn osgoi mwy o newid hinsawdd ... yn ôl y gwyddonwyr.

Nawrte, gobeithio ein bod ni i gyd yn deall y jargon, wedi'r cwbl, does dim

byd gwaeth nag eistedd a gwranddo ond heb ddeall.

Jargon gwahanol?

Ac mae hwn yn codi cwestiwn arall yn fy meddwl. Sef y defnydd o iaith a therminoleg yn ein pulpudau. A yw ambell wirionedd sy'n ein tanio ni sy'n cael ei draddodi o Sul i Sul yn annealladwy i ambell wrandawr? Er gwell neu er gwaeth – nid yr un eirfa sydd gan wrandawyr heddiw â gwrandawyr y canrifoedd cynt.

Nid yn ddireswm y diweddarwyd y cyfieithiadau o'r Beibl Cymraeg ym 1988 ac yna gyda beibl.net yn 2013. Efallai nad oes i 'geunant tywyll dychrynlyd' (beibl.net) yr un ergyd ym marn rhai ac sydd i 'lyn cysgod angau' (Salm 23) ac yn sicr gwell gan 'feddwl am y baban lesu yn gorwedd mewn 'preseb' (Luc 2 BCN) ac nid mewn 'cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid' (Luc 2 beibl.net), er taw cafn bwydo anifeiliaid yw preseb – dim ond bod *preseb* yn swnio'n fwy swynol!

Mae iaith ein cyfathrebu yn holl bwysig p'un ai mewn cynhadledd fyd-eang neu ymhlith y ddau neu dri mewn oedfa dawel.

Erbyn hyn, rwy'n ddigon hyderus i godi fy llaw mewn cyfarfod os nad wy'n deall, ond dyna sioc y byddwn yn ei gael petai un o'm cynulleidfa'n gwneud hynny ynghanol pregeth!

Beti-Wyn James

Diolchgarwch yn Rhydywernen

A wyddoch chi lle mae Rhydywernen? Ym mhentref Cefnddwysarn ger Y Bala, trowch fel petai i gyferiad Cwm Main. Mae capel a ffarm Rhydywernen y drws nesa i'w gilydd yn un pen y cwm, ac yn y pen arall mae capel Soar, ond bod Soar yn nes i gyfeiriad Dinmael. Beth bynnag am hynny, mae'r ddwy eglwys yn cydweithio'n ardderchog ac ysbryd hyfryd yn y gwasanaethau.

Pnawn Sul, 10 Hydref, cynhaliwyd yr ŵyl ddiolchgarwch yn Rhydywernen. Cyn Covid-19, yr arfer blynyddol oedd gwahodd yr enwadau eraill i'r oedfa arbennig honno, ond ni wnaed hynny eleni oherwydd y cyfyngiadau, a fyddai hynny ddim wedi bod yn hawdd yn adeilad bychan Rhydywernen na Soar. Er hynny, daeth cynulliad teilwng ynghyd a chadwyd at ofynnion Covid-19 a chafwyd oedfa o dan ofal y Parchg Iwan Llewelyn Jones. Ar ddiwedd yr oedfa cafwyd lluniaeth ardderchog yn y capel.

Ar y mur mae cofeb i gyn-weinidog, ac arni ceir y geiriau hyn:

Y PARCH JOHN GRIFFITHS.

GANWYD: 805

AIL-ANWYD: 1825

Mae'n debyg i'r Parchg John Roberts pan yn weinidog yng Nghapel Tegid, Y Bala, fynd â chriw o blant o'r Bala i Rydywernen a bu iddo roi hanes John Griffiths i'r plant gan ddweud bod y dyn wedi marw'n ifanc oherwydd gwaeledd. Ar ganol y sgwrs, torrodd plentyn o'r Bala ar draws sgwrs John Roberts a dweud wrtho: 'Mr Roberts, dwi'n gwybod be laddodd John Griffiths – cael annwyd wnaeth o!' A John Roberts yn esbonio mai bywhau mae'r 'ail-anwyd' ar y gofeb yn ei wneud. Da ynde?

Diolch am y croeso yn Rhydywernen. Roedd hi'n braf bod yn ôl yno.

Iwan Llewelyn

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Cyrsiau'r Hydref

Nos Fawrth 9 Tachwedd 7.00

Gweinidogaeth Galar a Chynnal Angladdau

ALED JONES

Cyfarwyddwr a Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg

Darllen, deall a dehongli Gair Duw heddiw –

Astudio'r Beibl yn ein cyd-destun ni

7 o'r gloch, nos Lun 8 Tachwedd -

Yr Her Amgylcheddol

DR HEFIN JONES,

Ysgol y Biowyddorau, Prifysgol Caerdydd

7 o'r gloch, nos Lun 15 Tachwedd -

Testament Newydd y Beibl

CATRIN HAF WILLIAMS, Diwinyddiaeth ac

Astudiaethau Crefyddol, PCYDDES

7 o'r gloch, nos Lun 22 Tachwedd -

Y Beibl Hebraeg

JOHN OWAIN AB IFOR JONES,

Eglwys Unedig Bute, Eglwys yr Alban

Croeso cynnes iawn i bawb

Bydd pob cwrs ar-lein eleni

Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
 Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

ACHUB Tŷ MAWR WYBRNANT – parhad

'Er nad yw'n syndod o gwbl fod Tŷ Mawr Wybrnant, fel gweddill eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, wedi bod ar gau ers gwanwyn 2020, mae yna ansicrwydd ynglŷn â'i ddyfodol.

Achoswyd pryder pan ddeallwyd fod dodrefn hynafol y tŷ a'r casgliad cyfoethog o Feiblau, gan gynnwys Beibl 1588, wedi eu symud oddi yno. A'r haf diwethaf gadawodd Nathan Munday, ceidwad Tŷ Mawr, ei swydd sy'n golygu nad oes neb bellach yn byw gerllaw i warchod y safle. Does ryfedd felly fod llawer yn holi beth sy'n digwydd ac, yn wir, a fydd Tŷ Mawr yn ailagor o gwbl.

Yn ôl Trystan Edwards, Rheolwr Cyffredinol Eryri a Llŷn i'r Ymddiriedolaeth, roedd bwriad i ailagor mewn rhyw fodd neu'i gilydd yng ngwanwyn 2021 ond nad yw hynny'n bosib mwyach, felly mae'r cynllun hwnnw wedi ei ohirio am flyyddyn. Er hynny, dywed bod posibilrwydd y bydd rhywbeth yn cael ei drefnu yn Nhŷ Mawr eleni, efallai rhyw un penwythnos tua diwedd yr haf a chael y Beiblau yn ôl dros dro – pe byddai amgylchiadau'n caniatáu.

Eglurodd fod yn rhaid rhoi'r Beiblau pwysicaf i'w cadw'n ddiogel mewn storfa bwrsol yng Nghastell y Waun, gan na ellid eu gadael yn Nhŷ Mawr a'r lle yn wag, a bod y dodrefn, a oedd ar fenthg o Sain Ffagan, wedi eu dychwelyd yno gan fod y cytundeb wedi dod i ben.

Ar hyn o bryd, nid oes bwriad i benodi ceidwad o'r newydd i ofalu am Dŷ Mawr, sy'n golygu na fydd yn agored ar amseroedd sefydlog a rheolaidd, fel y gall pobl ymweld heb orfod trefnu ymlaen llaw. Gobeithio y bydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu ailystyried hyn yn y dyfodol.

Dywed Trystan fod yr Ymddiriedolaeth yn awyddus iawn i drafod ac i dderbyn barn y cyhoedd cyn symud ymlaen. Gwnaed gwaith gwych a gwariwyd yn sylweddol iawn ar addasu'r eiddo yn Wybrnant ar gyfer dathlu pedwar canmlwyddiant cyfieithu'r Beibl yn 1988. Dylid adeiladu ar hynny fel bod

cyfleoedd rhwydd i ni, Gymry, a phobl o bedwar ban byd i ymweld â Thŷ Mawr a bod y profiad yn un cyfoethog ac yn fodd i ddathlu'n deilwng gorchestion un o brif fawrion ein cenedl.'

Rhestr rhesymau

Mor hawdd y gellir rhestru nifer o resymau pam fod Tŷ Mawr Wybrnant â chyfraniad mor amhrisiadwy i'n hanes diweddar fel cenedl.

1. Cawsom *Y Beibl Cyssegr-lan* yn ein hiaith, llais Duw a ddefnyddiwyd ganddo i achub miloedd;
2. Cawsom safon o fri i'n hiaith a thrwy hynny, i'n llenyddiaeth;
3. Dros y canrifoedd diweddar bu'n fodd, yn fwy nag unpeth arall, i'n gwneud yn genedl lythrennog, ddiwylliedig a gwaraidd;
4. Ni allwn wadu, yn anad yr unpeth arall, mai'r Beibl a gadwodd ein hiaith yn fyw.

Pwysu i ailagor

Ac yn Nhŷ Mawr Wybrnant y ganwyd y gŵr a ddefnyddiwyd i wireddu'r pethau hyn.

Gofynnaf onid dyletswydd, yn wir, braint, Cristionogion Cymru'n fwy na neb arall, ydi rhoi pwysau mawr a diildio ar yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i dynnu'i hewinedd o'r blew er sicrhau dyfodol teilwng a diogel i'r hen dŷ hanesyddol hwn, ein trysor amhrisiadwy? A all ein henwadau (gan gynnwys yr

Eglwys yng Nghymru, wrth gwrs), yn swyddogol ac unedig, fod ar flaen y gad mewn

ymgyrch benderfynol a diflino i roi pwysau ar berchnogion y lle i'w ailagor yn ddiymdroi er cadw'r cof am William


Morgan a'i gamp ysblennydd yn fyw 'i'n plant ac i blant ein plant yn dreftadaeth dragwyddol'?

Dyna'n wir ydi cwestiwn Eryl Owain yntau wrth gloi ei erthygl bwysig:

'Tybed beth ddaw o Dŷ Mawr yn y dyfodol? Mae'n wir nad yw'r ymwelwyr yn niferus. Nid yw ei leoliad anhygyrch yn ei gwneud yn rhwydd mynd yno, ond mae hynny'n rhan o apêl y lle. Dylem edrych ar gartref cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg fel trysor cenedlaethol, a dylai fod yn hwylus i bobl fedru ymweld â'r lle. Ac wedi iddynt wario'n helaeth iawn ar addasu Tŷ Mawr ac adeiladu Glan-yr-afon, ac ar greu gerddi hynafol a llwybrau natur gerllaw yn y 1980au, gobeithio y bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweld mai datblygu nid cyfyngu sydd ei angen yn Nhŷ Mawr.'

Beth amdani ?

Geraint Jones, Trefor.



Llyfrgell Castell y Waun. Mae sawl Beibl gwahanol yma, gan gynnwys copi o'r Beibl Bach a gyhoeddwyd ym 1630. Hwn oedd y Beibl cyntaf oedd ar werth i'w brynu, a hynny am bum swllt.